# Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 2 Tachwedd 2020

## Pn(5)32 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### Gweithdrefn: Arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) ("Rheoliadau 2019") i ddiweddaru croesgyfeiriadau at ddarpariaethau yn Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau CCP 2019") sy'n codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Reoliadau Cymwysterau a Gwasanaethau Proffesiynol (Diwygiadau a Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Gwnaeth Rheoliadau 2019 ddiwygiadau i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 mewn perthynas â chydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru yn unol â Rheoliadau CCP 2019.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, Ddeddf Addysg 2002
**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Na

## Pn(5)34 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### Gweithdrefn: Arfaethedig

Diben Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Gwnaeth Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") ddiwygiadau i Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (OS 2010/1433) a oedd yn trosi gofynion Cyfarwyddebau 2008/50/EC a 2004/107/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd yn Ewrop.

Mae Rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau 2019 yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ynghylch atal a rheoli llygredd yn integredig.  Nid yw'r Gyfarwyddeb hon mewn grym mwyach.

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 drwy gyfeirio at Gyfarwyddeb 2010/75/EU yn lle cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ynghylch allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd yn integredig).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio erthyglau 11 ac 11A o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yng ngoleuni ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Na